# YSGOL BRYNREFAIL

# ADRAN DAEARYDDIAETH
# GWAITH MAES

Ar y 30ain o Fedi a'r 4ydd Hydref 2011 fe drefnwyd gwaith maes i griw T.G.A.U. blwyddyn 11 ym Metws y Coed a blwyddyn 12 yn Nyffryn Afon Glaslyn ac fe dderbyniwyd arweiniad gan Mrs Angharad Harris, Swyddog Addysg, Parc Cenedlaethol Eryri. Yn Nyffryn Glaslyn bu disgyblion blwyddyn 12 yn casglu data am nodweddion sianel yr afon o ran lled, dyfnder, cyflymder y llif a maint a siâp y cerrig. Buont hefyd yn astudio'r gwaith a wnaethpwyd i arbed rhag llifogydd ym Meddgelert.

Bu blwyddyn 11 yn casglu data am Fetws y Coed fel 'pot mel' i ymwelwyr. Yr oedd cryn holi ar y bobl leol ar y stryd gyda holiaduron a hefyd astudiaeth ar ddefnydd tir ac edrych ar effaith ymwelwyr ar y pentref.

Fe fydd y wybodaeth a'r canlyniadau a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio tua gwaith asesiad ac arholiad allanol ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Fe drefnwyd y cyfan gan Bennaeth Yr Adran Daearyddiaeth Mr Elfyn Roberts sydd yn argyhoeddi fod ' awr yn y maes yn well na diwrnod cyfan yn y dosbarth '.